

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 151 Rhif 24 Mehefin 14, 2018 50c.

## COFIO'R CENHADON: CANNOEDD MEWN CYFLWYNIAD



### Dyma beth yw golygfa anhygoel!

Tua 700 o bobl yn sied enfawr canolfan geffylau Celaeron, ergyd carreg o gapel Neuaddlwyd, lle cafodd David Jones a Thomas Bevan eu hordeinio'n genhadon. Ymhlith y gynulleidfa, roedd dros 50 o bobl o Fadagascar, gan gynnwys cyn-Arlywydd yr ynys fawr honno ger arfordir Affrica, Marc Ravalomana. Ar y dde yn y llun, gwelir ef yn sgwrsio gyda Dr Geraint Tudur, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr, ac Elin Jones AC, Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Trwy gyfrwng ffilmiau ar ddwy sgrin anferth, cerddoriaeth ac emynau gan y côr a'r gynulleidfa fawr, adroddwyd hanes y ddau genhadwr a'u teuluoedd dewr aeth i Fadagascar yn 1818.

Cafwyd potread dramatig o'r fordaith hir a thymhestlog, genedigaethau, erlidigaeth, tywydd eithafol – a'r malaria a laddodd Thomas Bevan, ei wraig Mary a'u plentyn bach, yn ogystal â Louisa, gwraig David Jones, a'u plentyn hwythau.



### Dal ati

Daliodd David Jones ati drwy'r cwbl i sefydlu ysgolion ac eglwysi, a gyda chymorth David Griffiths o Wynfe, Sir Gâr, mynd ati i drosi'r Beibl i Falagaseg. Iaith lafar ydoedd cyn hynny, felly bu'n rhaid i'r cenhadon lunio gramadeg cyn trosi'r Ysgrifedigaeth. O gael iaith ysgrifenedig, rhoddwyd undod i'r genedl, gweithred sy'n cael ei chydabod gan bobl Madagascar tan heddiw.

Roedd portreadu'r hanes yng Nghelaeron hefyd yn dipyn o orchest, gyda dros gant o bobl leol yn cyfrannu mewn amryw ffyrdd – o'r rhai fu'n sgrïptio, i'r perfformwyr a'r bobl fu'n ffilmio a golygu'r fideos. Ar ddiwedd y perfformiad cafwyd cymeradwyaeth fyddarol. Braff, hefyd, oedd gweld Yvonne Evans, ddaw o ardal Aberaeron, yno yn cyflwyno eitem yn fyw ar



gyfer *Heno* S4C, a Ryland Teifi yn ffilmio ar gyfer rhifyn o *Dechrau Canu Dechrau Canmol* yn ogystal â Catrin M. S. Davies o gwmni cynhyrchu Unigryw oedd wrthi'n creu rhaglen ddogfen ar gyfer Radio Cymru.

(Lluniau a geiriau:  
Alun Lenny)

## Y LLYWYDD NEWYDD YN GOSOD HER



### Agorwch ddrysau: mae'r dyfodol yma!

Dyna oedd thema anerchiad Llywydd newydd Undeb yr Annibynwyr, y Parchg Jill-Hailey Harries, yn yr oedfa urddo yn Aberaeron. Wrth sôn am argyfwng yr Iddewon mewn caethiwed ym Mabilon, dyfynnodd eiriau'r proffwyd Jeremeia: 'Gwnewch y gorau o'ch sefyllfa. Peidiwch ag eistedd yno yn cwyno ei bod yn wael arnoch, na chwaith gwyno am y bobl o'ch cwmpas ... Byddwch yn genhadol, oherwydd mae bwriad gyda Duw; mae yn ein rhoi ni ar waith lle bynnag yr ydym.'

### Gwaith y Llywydd

Yn hanes y Llywydd, mae hynny'n golygu bugeilio eglwysi Bethel Sgeti a'r Tabernacl Treforys, yn ogystal â bod ar Fwrdd y Gwasanaeth Cam-drin Domestig, bod yn un o Fugeiliaid y Stryd gyda'r nos yn Abertawe ac yn Gaplan tîm merched y Scarlets – ymhlith pethau eraill.

'Mae plannu ein hunain "yn y byd" yn ein rhoi mewn sefyllfa i weld, ac uniaethu ag angen cyd-ddyn,' meddai Jill-Hailey. 'Rydym yn rhan o'r gymdeithas tu allan i furiau capel p'un ai a yw'r drysau ar agor ai peidio. Nid "ni a nhw" yw hi, oherwydd fe garodd Duw y byd, a rhoddodd ei fab yn aberth, a bu farw Iesu Grist dros bob unigolyn ar y ddaear. Ein braint ni yw cael dangos hynny. Os yw hynny'n golygu ein bod yn cerdded strydoedd, mynd i ardaloedd sy'n ein hanesmwytho, wel, felly mae'n rhaid iddi fod.'

### Cyfle i glywed

Y Parchg Jill-Hailey Harries yw'r fenyw gyntaf sy'n weinidog ordeiniedig i fod yn Llywydd yr Undeb. Fe'i holynir ymhen dwy flynedd gan fenyw arall sy'n weinidog, sef y Parchg Beti-Wyn James.

Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, fe fydd Jill-Hailey yn ymweld â phob Cyfundeb yn ei dro. Cofiwch achub ar y cyfle i glywed ei hanerchiad yn llawn. Byddwch yn siŵr o gael eich cyffroi gan y straeon sydd ganddi i'w hadrodd o'i phrofiad mewn meysydd all fod yn anghyfarwydd i chi, a thrwy'r cyfan eich ysbrydoli gan ei neges bwerus.

## Pobl y Pentecost yn dal ati i ofalu

*'Dyma dw i'n ei orchymyn: Carwch eich gilydd fel dw i wedi'ch caru chi. (Ioan 15:12)*

*Roedd pawb oedd yn credu yn teimlo'u bod nhw'n un teulu, ac yn rhannu popeth gyda'i gilydd (Actau 2 :44)*



Mae hi'n amlwg o'r darlun a gawn o'r Eglwys Fore yn ail bennod llyfr yr Actau fod aelodau'r eglwys yn caru ei gilydd ac yn gofalu ar ôl ei gilydd ac roedden nhw'n dal ati'n ffyddlon i gyfarfod yn rheolaidd. Un o ryfeddodau mwyaf yr Eglwys Fore oedd eu parodrwydd i rannu eu heiddo a'u harian yn gyfartal a hynny'n adlewyrchu eu parodrwydd i ymddiried yn ei gilydd a dibynnu ar ei gilydd. Mae perthyn i deulu'r eglwys yn bwysig iawn i bob un ohonom heddiw hefyd ac mewn oes sy'n annog pobl i fyw bywydau unigolyddol mae

dewis perthyn i eglwys yn golygu gwneud safiad sy'n mynd yn gwbl groes i'r graen diwylliannol.

### Cryfder eglwysi bychain

Un peth mae aelodau eglwysi bychain yn gallu gwneud yn well ambell dro nag eglwysi mawr yw gofalu am ei gilydd. Mae nhw'n gwybod hynt a helynt pawb ac yn gwybod pwy sydd angen liffi i'r capel ar fore Sul. Mae nhw'n gwybod pryd mae cleifion yn dod adre o'r ysbty ac yn cefnogi'r rhai sydd mewn galar a phrofedigaeth. Mae hi'n hyfryd i weld yr holl gariad a'r gofal sydd yn ein heglwysi heddiw a'r ffordd y mae pobl yn cynnal ei gilydd drwy brofiadau bywyd. Wrth weld y cariad yma bydd pobl yn gwybod ein bod yn ddisgyblion i Iesu Grist.

### Gofalu am eraill

Ond nid dim ond caru a gofalu am ei

haelodau ei hun mae'r Eglwys. Drwy gynlluniau fel y Banc Bwyd a Bugeiliaid y Stryd ac wrth fwydo'r digartref a cheiswyr lloches, mae'r Eglwys yn dal ati o ddifrif i estyn llaw at bobl mewn angen. Mewn partneriaeth gyda mudiadau fel Cymorth Cristnogol, rydym yn medru helpu rhoi cyfle teg i bobl dlawd ar draws y byd i wneud bywoliaeth a chynnal eu teuluoedd. Mae cariad a gofal yr eglwys yn cyffwrdd llawer mwy o bobl na dim ond yr aelodau. Gwyddom wrth wasanaethu pobl mewn angen ein bod yn gwasanaethu Crist ei hun.

*Ym mha ffyrdd gwahanol mae aelodau eich eglwys yn gofalu am ei gilydd ar hyn o bryd?*

*Oes na rai pobl yn syrthio drwy'r rhwyd a sut fyddai modd i'r eglwys ofalu yn well amdanynt?*

*Pa gynlluniau neu elusennau rydych yn eu cefnogi fel eglwysi yn lleol ac yn rhyngwladol? Trafodwch sut mae eich eglwys chi am gefnogi Apêl Madagascar?*

## APÊL FAWR YR ANNIBYNWYR



Cafodd yr apêl i godi swm sylweddol o arian tuag at gynnal pedwar prosiect ym Madagascar ei lansio yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn Aberaeron, yng nghwmni criw sylweddol o ymwelwyr o'r wlad honno. Dangoswyd fideos o'r prosiectau, a ffilmiwyd gan Robin Samuel a Rhodri Darcy yn ystod eu hymweld â Madagascar y llynedd. Bydd y fideos ar gael ar-lein yn fuan ac mewn pecyn adnoddau fydd yn cael ei anfon i bob eglwys Annibynnol cyn bo hir. Maent yn adrodd stori pobl anghenus ac achosion da fydd yn siŵr o gyffwrdd â'n calonnau fel Annibynwyr, fel Cymry ac fel pobl.

## Anerchiad Olaf Dr Geraint Tudur

Wrth edrych yn ôl dros 12 mlynedd o wasanaeth i'r Undeb fel Ysgrifennydd Cyffredinol, roedd anerchiad y Parchg Ddr Geraint Tudur yn olrhain cyfnod pwysig yn hanes yr Annibynwyr ac yn un emosiynol iawn ar brydiau. Bydd ei anerchiad yn ymddangos fel cyfres yn y *Tyst* yn fuan.



*Dr Geraint Tudur gyda'i wraig Carolyn yng nghwmni Glyn Williams, Llywydd yr Undeb 2016-18.*

# Barn Annibynnol

## Eid Mubarak! Sul y Tadau Hapus! a Dydd Da Rhoddwyr Gwaed!

Cyhoeddir y rhifyn hwn o'r *Tyst* ar 14 Mehefin 2018, sydd hefyd yn digwydd bod yn ddiwrnod olaf Ramadan, ac felly'n ddechreuad dathliadau Eid. Felly, hoffwn ddimuno i chi Eid al-fitr llawen iawn. Dros y byd i gyd heno bydd ein cyfeillion Mwslemaidd yn dathlu gydag arddeliad, fel unigolion ac fel cymuned. Mae cyfnod Ramadan yn wirioneddol heriol yn ystod misoedd yr haf yn hemisffer y gogledd. Ers mis, mae'n ffrindiau wedi bod yn aros tan wedi 10 y nos i fwyta'u pryd mawr o fwyd, a hynny fel pryd cyntaf ar ôl cael eu brecwast am 4 y bore. Dyw hi ddim yn gymaint o her yn agosach at y cyhydedd lle mae'n goleuo a thywyllu mewn cylchoedd 12 awr gydol y flwyddyn.

Rwy'n ffeindio cyfeillion Mwslemaidd o'm hamgylch yn gweithio'n galed ar eu hamyneddgarwch dros fis Ramadan, yn sylweddoli eu bod yn gallu teimlo ychydig yn fyrbwyll o achos awydd bwyd yn ystod y dydd, gan wybod y bydd yn rhaid aros



tan iddi nosi cyn diwallu eu hangen. Mae 4 o'r gloch y bore yn amser da am sgwrs gyda nhw yn ystod y mis – achos maen nhw wedi codi i gael brecwast yn ddyddiol, gan fynd 'nôl i gysgu am ychydig oriau cyn dod i'r gwaith.

Trwy gydol y mis maen nhw wedi neilltuo ychydig yn fwy o'u meddyliau i weddi a myfyrdod, ac hefyd yn fwy ymwybodol o'r angen am reolaeth dros eu hanghenion corfforol ac emosiynol yn ystod y dydd.

Mae hyn yn wrthgyferbyniad mawr i gyfnod y grawys i gristnogion. Rwy'n nabod nifer sy'n mynd heb siocled neu goffi neu alcohol yn ystod y grawys, ond pa wahaniaeth mae hyn yn ei wneud? Ydy maint aberth Ramadan yn dwysáu'r profiad ysbrydol ac yn ei wneud yn fwy gwerthfawr i Fwslemaidd na'n haberth ceiniog a dime ninnau?

Y cyfan a wyddwn yw fod dathliad Eid yn golygu llawer, ac mae'r bwyd sy'n cael ei rannu yn gymunedol yn binacl ar y cyfan. Byddai'n dda petawn ni'n gallu dathlu rhannau o'n bywydau ysbrydol ninnau gyda'r un arddeliad a synnwy'r o gymuned.



Os nad ydych yn gwerthfawrogi'r cyfarchiad Eid Mubarak, efallai y bydd ganddoch fwy o werthfawrogiad o ddymuniad Sul y Tadau Hapus i chi.

Cedwir trydydd Sul mis Mehefin i'r perwyl hwn ers dros ganrif, ac mae'n ddiwydiant sylweddol ynddo'i hun. Dymuniadau gorau i bob tad beth bynnag.

I minnau yn bwysicach na Sul y Tadau yr wythnos hon yw fod 14 Mehefin yn ddiwrnod dathlu Rhoddwyr Gwaed yn Fyd Eang. Mae arfer a ddechreuodd wrth i un meddyg rhoi gwaed o un ci i un arall er mwyn cadw ci bach yn

fyw, wedi troi'n arbenigedd sy'n cadw miliynau'n fyw bob wythnos. Felly, hyd yn oed os nad y'ch chi'n ffan o Eid al-fitr neu Sul y Tadau, does dim esgus gan y rhan fwyaf ohonom i beidio â rhoi gwaed. Wedi darllen y *Tyst*, beth am ffeindio allan ble y gallwch wneud hyn nesaf? Am heddiw, Eid Mubarak hael i chi gyd gan obeithio y gallwch rannu'ch llawenydd a'ch gwaed.

### Geraint Rees

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr na'r tîm golygyddol.)

## TYSTEB

Bydd y Parchedig Andrew Lenny yn ymdeol o'i ofalaeth fel gweinidog yr Annibynnwyr yn Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth, ar ddiwedd Gorffennaf eleni ar ôl 31 mlynedd o wasanaeth diflino. Bwriedir gwneud tysteb i ddangos gwerthfawrogiad yr ardal iddo ef a Mrs Lenny ac fe dderbynnir cyfraniadau os dymunwch i 'Eglwys Gynulleidfaol Seion Stryd y Popty', i'w hanfon i Lewis Gruffudd, 66 Maesceinion, Waunfawr, Aberystwyth, SY23 3QJ, erbyn 17 Mehefin.

Bydd y dysteb yn cael ei chyflwyno iddynt mewn gwasanaeth arbennig ym mis Gorffennaf.

## YSGOL HAF Y GWEINIDOGION – MEHEFIN 25-27, 2018

Canolfan Halliwell  
Coleg Prifysgol Cymru y Drindod  
Dewi Sant, Caerfyrddin  
Prif thema: *Gweinidogaeth – Yr Alwad*  
Cadeirydd: **Beti Wyn James.**

### Llun 25

- 4.00 Cyrraedd, cofrestru, coffi.
- 5.00 Seminar: **Yr alwad i weinyddu**  
**I agor: Alun Tudur, Dewi Myrddin Hughes, Gwyndaf Richards**
- 6.30 Swper
- 7.30 Darlith Goffa W. T. Pennar Davies ac R. Tudur Jones  
**Alun Wyn Bevan: Y Campau ac Ysbryd Brawdol**
- 9.00 Epilog: **Chris Owen**

### Mawrth 26

- 8.00 Brecwast
- 9.15 Defosiwn: **Chris Owen**
- 9.30 Astudiaeth Feiblaidd: **Euros Wyn Jones**
- 10.30 Coffi
- 11.00 Darlith a thrafodaeth: **Catrin Haf Williams – Y Defnydd o'r Hen**

### Destament yn y Newydd: Trafodaethau a Datblygiadau mewn Ysgolheictod Gyfoes

- 12.30 Cinio
- 1.30 Gwibdaith dan ofal **Dyfrig Rees**
- 5.00 Coffi
- 5.30 Cyfarfod Busnes
- 6.30 Swper
- 7.30 Atgofion: **John Lewis Jones**
- 9.00 Epilog: **Chris Owen**

### Mercher 27

- 8.00 Brecwast
- 9.15 Defosiwn: **Chris Owen**
- 9.30 Astudiaeth Feiblaidd: **Euros Wyn Jones**
- 10.30 Coffi
- 11.00 Darlith a thrafodaeth: **Noel A. Davies – Gweinidogaeth**  
**Gristnogol heddiw: gwreiddiau a gorwelion**
- 12.15 Defosiwn: **Y Cadeirydd**
- 12.30 Cinio

Enwau i'r Ysg. Dyfrig Rees erbyn 5 Mehefin, fan bellaf.  
*mandydyfrig@btinternet.com* 01656 648726.

Noddir yr Ysgol gan Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg.

### Capel y Baran Rhydyfro Pontardawe

## DARLITH FLYNYDDOL

gan **Y Prifardd Einir Jones**

### BARDDONIAETH

Nos Fawrth, 19 Mehefin 2018  
am 6.30 pm

Bydd lluniaeth ysgafn ar gael  
Croeso cynnes i bawb

Manylion: **Dilys Walters**  
**01792 863823**



*Erthyglau, llythrau at y Prif Olygydd:*  
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**  
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
 Caerdydd, CF23 9BS  
 Ffôn: 02920 490582  
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*  
**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**  
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
 LL49 9UE  
 Ffôn: 01766 513138  
 E-bost: IwanLlew@aol.com

**Alun Lenny**  
 Porth Angel, 26 Teras Picton  
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
 Ffôn: 01267 232577 /  
 0781 751 9039  
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*  
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc  
 Busnes Glanrafon, Bro Abertawe**  
**ABERTAWA SA7 0AJ**  
 Ffôn: 01792 795888  
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

**Dalier Sylw!**

Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

**TORRI TIR NEWYDD MEWN OEDFA DDATHLU**

Cafodd oedfa arbennig iawn yn Aberaeron i ddathlu 200 mlwyddiant y cenhadon lleol yn mynd i Fadagascar ei darlledu'n fyw ar y rhyngwyd yn ystod Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.



Credir mai dyma'r tro cyntaf erioed i unrhyw enwad Cristnogol Cymreig ddarparu'r fath wasanaeth. Manteisiodd cannoedd lawer o bobl o Gymru, Madagascar a rhannau eraill o'r byd ar y cyfle i wyllo a chlywed yr oedfa gofiadwy hon.



Yn ogystal â nifer o bobl leol a chynrychiolwyr o sawl cwr o Gymru, roedd criw sylweddol o ymwelwyr o Fadagascar yno – gan gynnwys cyn-Arlywydd y wlad Marc Ravalomana (yn y canol, dde pellaf) a thu ôl iddo y Parchg Ammi Irako Andriamahazosa, Llywydd eglwys FJKM – enwad sydd â chwe miliwn o aelodau ym Madagascar.

Estynnwyd croeso i bawb gan Lywydd newydd yr Undeb, y Parchg Jill-Hailey Harries. Y thema oedd 'Duw'n galw – Ddoe a Heddiw.

Pregethwyd gan y Parchg Ddr Noel Davies (dde). Bu nifer o oedolion a phlant Cyfundeb Ceredigion yn cymryd rhan, yn ogystal â rhai o'r ymwelwyr o Fadagascar. Anerchwyd y plant gan y Parchg Beti-Wyn James.

Canwyd nifer o emynau ac offrymwyd gweddïau yn Gymraeg, Saesneg a Malagaseg.

Cafodd plac marmor ei ddadorchuddio a'i gyflwyno gan bobl Madagascar i'w osod yng nghapel Neuadd-lwyd i gofio'r cenhadon ac i 'sefydlu dolen barhaol rhwng ein dwy genedl'.



**Sul Sbesial 2018**  
 Ysgol Bro Dinefwr  
 Ffairfach, Llandeilo SA19 6PE  
**8 GORFFENAF 10.30**

**Y MÔR**

Parchg Derek Rees  
 Band Cyfoes  
 Ysgol Sul Llanddarog  
 Fan byrgys a hufen ia  
 Nifer o stondinau amrywiol  
 Te, coffi a diod am ddim  
 Casgliad at Water Aid

**CROESO CYNNES IAWN I BAWB**  
 Trefnir gan Annibynwyr, Bedyddwyr a Phresbyteriaid Sir Gâr



**Mae'r fideo i'w gweld ar dudalen Facebook Undeb yr Annibynwyr, ac ar ein gwefan mewn eitem yn yr Adran Newyddion.**